# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Chwefror 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd cais am dystiolaeth ysgrifenedig Ymchwiliad Burns (Hela) yn cael ei drafod gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a fyddwch yn cyhoeddi unrhyw ymatebion a wnaed. (WAQ3639)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw union werth ariannol y rhent pupren ar gyfer y tir ychwanegol sydd ei angen yn ychwanegol at leoliad 1E er mwyn adeiladu Adeilad newydd y Cynulliad, a pha bryd y llofnodwyd y brydles. (WAQ3672)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif presennol o gyfanswm darpariaeth y gyllideb ar gyfer project Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ3673)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd cais am dystiolaeth ysgrifenedig Ymchwiliad Burns (Hela) yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth ac a fyddwch yn cyhoeddi'r ymatebion a wnaed. (WAQ3638)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw wedi derbyn sylwadau gan drigolion Pontprennau yng Nghaerdydd ynghylch adeiladu ysgol gynradd newydd. (WAQ3670)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A gyflwynwyd i'r Cynulliad y cais i adeiladu ysgol newydd ar gyfer plant sy'n byw ym Mhontprennau, Caerdydd, fel rhan o gynllun cymeradwyaeth credyd Menter Cyllid Preifat Cyngor Sir Caerdydd. (WAQ3671)